

Rheoleiddio Ein Dyfodol – Newidiadau i God Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru)

Statws Wedi dod i ben
Dyddiad lansio 31 Awst 2018
Dyddiad cau 23 Tachwedd 2018

Ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn

Mae'r ymgynghoriad hwn o ddiddordeb i awdurdodau lleol, busnesau bwyd a defnyddwyr yng Nghymru

Pwnc ymgynghori

Nod rhaglen [Rheoleiddio Ein Dyfodol \(ROF\)](#) yw moderneiddio sut mae busnesau bwyd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn cael eu rheoleiddio i sicrhau bod ein bwyd yn ddiogel ac yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label.

Mae'r ASB yn bwriadu adolygu Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd Cymru (y Cod) er mwyn cyflawni'r canlynol:

- newid y broses o gofrestru busnesau bwyd
- gwneud newidiadau i'r ffordd y defnyddir y cynllun sgorio ymyriadau hylendid bwyd gan wneud yn siŵr bod ymyriadau wedi'u targedu'n briodol i sicrhau'r effaith orau wrth fynd i'r afael â busnesau bwyd nad ydynt yn cydymffurfio
- cydnabod strategaethau arolygu cenedlaethol
- ceisio barn gan randdeiliaid yn gynnar ar agweddau cyd-ddibynnol eraill ar y rhaglen ROF sy'n dal i gael eu datblygu

Diben yr ymgynghoriad

Mae'r ASB yn croesawu barn ar y cynigion i ddiwygio'r Cod er mwyn gweithredu cam cyntaf y newidiadau sy'n gysylltiedig â ROF. Bydd y newidiadau hyn yn:

- galluogi'r dull digidol newydd ar gyfer cofrestru busnesau bwyd
- galluogi targedu adnoddau i sicrhau'r effaith orau wrth fynd i'r afael â busnesau nad ydynt yn cydymffurfio trwy welliannau i'r cynllun sgorio ymyriadau ar gyfer sefydliadau bwyd
- cydnabod Strategaethau Arolygu Cenedlaethol (NIS), gan greu aliniad gwell rhwng y Cod a'r Prif Awdurdod

Gwahoddir sylwadau hefyd er mwyn helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu mesurau perfformiad ar gyfer awdurdodau lleol yn y dyfodol, fel bod asesiadau mwy ystyrlon a phrydlon o'r modd y mae awdurdodau lleol yn cyflawni eu rhwymedigaethau yn bosibl.

Pecyn ymgynghori

Mae'r copi o'r Cod Ymarfer gyda'r newidiadau wedi'u tracio (isod) wedi'i gynnwys yn Saesneg yn unig at ddibenion yr ymgynghoriad hwn.

Cymru

[View Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd – Pecyn Ymgynghori as PDF](#) (1.26 MB)

Wales

[View Food Law Code of Practice with track changes Wales as PDF](#) (1.59 MB)

Sylwadau a safbwyntiau

Dylech anfon eich holl sylwadau at:

Daniel Morelli
Rheolwr Partneriaethau Awdurdodau Lleol
Tîm Partneriaethau Awdurdodau Lleol
Asiantaeth Safonau Bwyd
Llawr 11, T? Southgate
Wood Street
Caerdydd, CF10 1EW

Ffôn: 029 2067 8902

E-bost: lasupportwales@food.gov.uk

Cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion

Rydym ni'n gobeithio cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion a ddaw i law o fewn tri mis i ddiwedd yr ymgynghoriad a darparu dolen i'r crynodeb o'r dudalen hon.

Yn unol ag egwyddor yr Asiantaeth o fod yn agored, byddwn yn cadw copi o'r ymgynghoriad a'r ymatebion llawn, a fydd ar gael i'r cyhoedd ar gais. Gallai'r crynodeb o'r ymatebion hefyd gynnwys data personol, fel eich enw llawn. Ni fyddwn yn datgelu unrhyw ddata personol arall oni bai y ceir cais am yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad. Os nad ydych am i'r wybodaeth hon gael ei rhyddhau, ewch ati i lenwi a dychwelyd y Ffurflen Cyhoeddi Data Personol. Nid yw dychwelyd y ffurflen hon yn golygu y byddwn yn trin eich ymateb i'r ymgynghoriad yn gyfrinachol, dim ond eich data personol.

[View Cyhoeddi data personol as PDF](#) (52.9 KB)

[View Cyhoeddi data personol \(doc\) as Word](#) (228 KB)

Rhagor o wybodaeth

Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i baratoi yn unol ag Egwyddorion Ymgynghori Llywodraeth EM. Os oes Aseiad Effaith wedi cael ei gynhyrchu, bydd wedi'i gynnwys yn y dogfennau ymgynghori. Os nad oes Aseiad Effaith wedi cael ei ddarparu, bydd y rheswm yn cael ei nodi yn y ddogfen ymgynghori.